Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# SWYDD WAG

# Cefnogaeth Greadigol

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Cytundeb Parhaol, swydd rhan-amser (oriau hyblyg, cyfartaledd o 22.5 awr yr wythnos)

I ddechrau cyn gynted â phosib.

**Cyflog:** £24,500 pro rata.

**Dyddiad Cau: Dydd Llun 5 Mai 2025** **Cyfweliadau*: Dydd Iau 15 Mai 2025**

**Lleoliad:** Rydym yn dîm cydweithredol sy’n gweithio ledled Cymru, gyda swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Rydym yn gweithio mewn modd hybrid ac mae angen presenoldeb yn un o'r swyddfeydd o bryd i'w gilydd, ond gellir cyflawni cyfran fawr o'r rôl hon wrth weithio gartref. Os gallai mynychu’r swyddfa eich atal rhag gwneud cais am unrhyw reswm, anfonwch e-bost atom i drafod eich sefyllfa ymhellach.

*Nod **Llenyddiaeth Cymru** yw bod yn sefydliad cynhwysol, sy'n ymroddedig i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd. Rydym yn asesu ceisiadau ar gryfder potensial, a byddwn yn cymryd camau cadarnhaol drwy warantu cyfweliad i bob ymgeisydd sy’n bodloni gofynion addasrwydd y rôl ac sy’n nodi yn eu cais eu bod yn cael eu tangynrychioli o fewn y sector llenyddol.



# Cliciwch i ddarganfod mwy am:

- Llenyddiaeth Cymru
- Gyrfaoedd a buddion staff
- Ein Polisi Recriwtio
- Ein Haddewid
- Rôl Cefnogaeth Creadigol
- Sut i ymgeisio

# Rôl Cefnogaeth Greadigol

Am y Rôl

Ydych chi am gael eich troed yn nrws y sector llenyddol? A ydych chi wedi profi rhwystrau'n cael mynediad i'r celfyddydau a diwylliant o'r blaen? Ydych chi'n angerddol am lenyddiaeth a'i photensial i drawsnewid bywydau? Yna efallai y bydd y swydd hon yn berffaith i chi!

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â thîm deinamig a chreadigol. Byddwch yn cefnogi'r gwaith o weinyddu a chyflawni prosiectau a rhaglen ehangach Llenyddiaeth Cymru, sy'n anelu at greu Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.

Mi fydd y rôl hon yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a rheolwyr prosiectau creadigol i ddysgu o'u harbenigedd wrth i ni weithio i sicrhau bod yr awduron a'r cymunedau rydym ni'n cefnogi ledled Cymru yn elwa o'n rhaglenni. Byddwch yn cefnogi prosesau ymgeisio a chyflwyno cynlluniau blaenllaw megis ein rhaglen datblygu awduron, Cynrychioli Cymru, a Sgwennu'n Well sy'n cefnogi datblygiad ymarferwyr llenyddol.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dylunio holiaduron i gasglu adborth, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'n gweithgareddau. Byddwch hefyd yn cysylltu ag awduron a hwyluswyr, gweinyddu ceisiadau a dylunio astudiaethau achos i gyfleu effaith ein gwaith.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Rôl Cefnogaeth Greadigol

Meysydd darparu allweddol:

- Cefnogi'r Tîm Creadigol i ddyfeisio a chyflwyno cynlluniau blaenllaw a phrosiectau cymunedol.
- Cyfathrebu â chyfranogwyr a chysylltu ag awduron, hwyluswyr ac artistiaid.
- Gweinyddu prosesau ymgeisio, gan gynnwys cofnodi a chydnabod ceisiadau.
- Dyfeisio a dosbarthu holiaduron (trwy Survey Monkey) i gasglu adborth hirdymor gan gyfranogwyr, creu adroddiadau a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau posib i'n prosesau a gweithgareddau.
- Casglu a dadansoddi data, a chreu astudiaethau achos sy'n dangos effaith sefydliadol.
- Paratoi pecynnau gwybodaeth addas ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau, gan gynnwys cyrsiau yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.
- Cefnogi cydweithwyr i gynnal gweminarau.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig a rheolwyr prosiect creadigol mewn cyfarfodydd allanol.
- Cymryd a dosbarthu nodiadau cyfarfodydd Creadigol misol.
- Unrhyw dasgau eraill, yn ôl yr angen.

**Yn adrodd i:** Rheolwr Creadigol



# Rôl Cefnogaeth Greadigol

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

**Addasrwydd ar gyfer y rôl**

Rydym yn chwilio am rywun sydd â:

- Diddordeb mewn llenyddiaeth, a grym y celfyddydau i fynd i'r afael â materion cyfiawnder cymdeithasol.
- Y gallu i amldasgio, i weithio'n dda dan bwysau, ac i flaenoriaethu cyfrifoldebau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, datrys problemau a bod yn drefnus.
- Sgiliau cyfathrebu clir, sensitif a chadarnhaol yn Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.
- Gwybodaeth digidol ymarferol a hyder i ddefnyddio systemau fel SurveyMonkey, Zoom a Microsoft Office (neu debyg).

Bydd unrhyw gynigion swydd yn cael eu gwneud yn amodol ar wiriad DBS priodol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon ond yn ansicr a oes gennych brofiad digonnol neu'n newydd i weithio yn y sector celfyddydol neu lenyddol, cysylltwch ag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau (alys@llenyddiaethcymru.org / 02920 472266) am sgwrs anffurfiol. Mae hon yn rôl lefel mynediad ac rydym yn darparu hyfforddiant sefydliadol a hyfforddiant allanol i'n holl staff i'w cefnogi i gyrraedd eu potensial.



# Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch y disgrifiad swydd uchod a'r rhestr addasrwydd yn ofalus**. Hefyd, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2022-27 ac edrychwch o gwmpas ein gwefan.
2. **Ysgrifennwch lythyr cais* neu greu cais fideo*** yn esbonio pam eich bod â diddordeb yn y rôl, a sut yr ydych yn addas ar ei chyfer (e.e., soniwch am eich profiadau, a pha elfennau penodol sy'n eich diddori am y swydd). Bydd ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau fideo yn cael eu hasesu yn gyfartal.

   *Uchafswm o 2 dudalen A4, neu fideo 5 munud.
3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org **erbyn dydd Llun 5 Mai 2025, 5.00 pm:**

   - Eich llythyr cais neu fideo;
   - Eich **CV a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
   - Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi'i chwblhau (ar gael yma).

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i **gyfweliad digidol ar ddydd Iau 15 Mai 2025**. Byddwn yn cadarnhau o flaen llaw pwy fydd ar y panel cyfweld yn cynrychioli tîm Llenyddiaeth Cymru.

Er mai cyfweliad ffurfiol fydd hwn, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod pob ymgeisydd yn gyfforddus â'r broses gyfweld. Os bydd y broses yn achosi unrhyw bryder i chi, rhowch wybod i ni o flaen llaw a gallwn drefnu cyfarfod anffurfiol neu sgwrs dros y ffôn/fideo cyn y cyfweliad gydag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau.

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y rôl o flaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I siarad ag Alys yn uniongyrchol neu i drefnu galwad yn ôl, anfonwch e-bost ati i alys@llenyddiaethcymru.org. Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr gyda chanlyniad y cyfweliadau erbyn 20 Mai.

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig (1146560) sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales